# Adolygiad o Lywodraeth Cymru

Chwefror 2021

Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales

# Pwy ydyn ni?

Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru. Ei gwaith hi yw gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru a phobl eraill yn diogelu hawliau plant yn eu holl waith. Gallwch chi ddarllen mwy am ei gwaith yma.

Mae gan y Comisiynydd bŵer cyfreithiol i edrych ar y pethau mae'r Llywodraeth yn dweud y bydd yn gwneud, er mwyn gwneud yn siŵr bod eu penderfyniadau'n golygu bod plant yn cael eu holl hawliau.

# Beth wnaeth hi?

Yn 2020, penderfynodd y Comisiynydd edrych ar beth roedd y Llywodraeth wedi gwneud i ddiogelu a chefnogi dau grŵp o blant; y rhai sy'n cael eu haddysg gartre, a'r rhai sy'n mynd i ysgol annibynnol (sydd weithiau'n cael eu galw'n ysgolion preifat).

Roedd hi wedi bod yn pryderu bod plant yn y lleoedd yma ddim yn cael eu holl hawliau, gan gynnwys addysg i'w helpu nhw i fod y gorau gallan nhw fod, i gael eu cadw'n ddiogel, i dderbyn gofal iechyd a chefnogaeth arall os bydd angen, ac i gael yr holl wybodaeth mae arnyn nhw angen i wneud dewisiadau am eu bywydau eu hunain. Dyma ddwy enghraifft sy'n dangos pam roedd hi'n pryderu:

- Yn 2011, fe wnaeth bachgen oedd yn cael ei addysg gartre farw oherwydd ei fod e heb gael y gofal a'r gefnogaeth oedd angen, a doedd e ddim wedi gweld oedolion eraill ers llawer o flynyddoedd, felly doedd pobl ddim yn gwybod pa mor sâl oedd e. Dywedodd adroddiad yn 2016 y dylai'r gyfraith newid i ddiogelu a chefnogi plant sy'n cael eu haddysg gartre yn well.
- Yn 2019, roedd pryder am ysgol annibynnol yng ngogledd Cymru lle roedd oedolion eraill yn poeni bod ymddygiad y pennaeth gyda'r plant ddim yn dderbyniol.

Dyma'r tro cyntaf i Gomisiynydd Plant Cymru ddefnyddio'r pŵer cyfreithiol yma i edrych ar beth mae'r Llywodraeth wedi gwneud. Mae hi a'i thîm wedi ysgrifennu adroddiad hir sy'n nodi'r holl ddogfennau buon nhw edrych arnyn nhw a beth wnaeth hi ddarganfod. Mae'r hwn yn grynodeb o'r adroddiad hir yma.

# Beth wnaeth hi ddarganfod?

Mae'r Llywodraeth wedi gwneud llawer o waith i edrych ar sut gallan nhw gefnogi plant sy'n cael eu haddysg gartre neu mewn ysgol annibynnol. Ond mae'r gwaith maen nhw wedi'i wneud yn y cefndir yn bennaf a dydyn nhw ddim wedi newid unrhyw gyfreithiau na chanllawiau fyddai'n cefnogi pobl i wneud pethau'n wahanol.

## Addysg gartre

Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i bobl sy'n gweithio gyda phlant a hefyd i aelodau o'r cyhoedd o leiaf 3 gwaith yn ystod y 5 mlynedd diwetha beth maen nhw'n meddwl ddylai ddigwydd i helpu plant sy'n cael eu haddysg gartre. Maen nhw wedi derbyn llawer o sylwadau ac mae llawer wedi rhoi eu barn.

Ond er bod nhw wedi gofyn am hyn i gyd, dyw'r Llywodraeth ddim wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r cyfreithiau na'r rheolau.

Mae'r Comisiynydd yn pryderu bod dim byd wedi newid ers amser hir. Ar ôl edrych ar lawer o ddogfennau, roedd hi'n gallu gweld adegau pan doedd pethau ddim yn digwydd yn ddigon cyflym, os o gwbl, ac mae hi wedi dweud yn yr adroddiad bod hynny ddim yn ddigon da i blant.

Doedd y Comisiynydd a'i thîm ddim yn gallu gweld o'r dogfennau sut roedd pobl wedi meddwl am hawliau plant wrth wneud y penderfyniadau yma.

## Ysgolion Annibynnol

Yn ôl y dogfennau bu tîm y Comisiynydd yn edrych arnyn nhw, mae llawer o bobl wedi dweud wrth y Llywodraeth ers llawer o flynyddoedd y dylai athrawon a staff eraill mewn ysgolion annibynnol orfod cofrestru gyda sefydliad o'r enw Cyngor y Gweithlu Addysg. Sefydliad yw hwn sy'n gwneud yn siŵr bod gan bob athro yr holl gymwysterau a phrofiad gwaith angenrheidiol i fedru dysgu plant, ac yn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n ymddwyn mewn ffordd dderbyniol i weithio gyda phlant. Pan fyddwch chi'n 'cofrestru' gyda nhw, rydych chi'n dweud wrthyn nhw ble rydych chi'n gweithio, a gyda phwy. Does dim rhaid i athrawon a staff eraill mewn ysgolion annibynnol gofrestru, felly does neb tu allan i'r ysgol yn gwneud yn siŵr mai nhw yw'r bobl iawn i fod yn gweithio yn yr ysgolion yna.

Rhan o waith y Llywodraeth yw monitro sut mae ysgolion annibynnol yng Nghymru yn cael eu rhedeg, felly mater iddyn nhw yw gwneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol i gadw plant yn ddiogel yno a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael eu holl hawliau.

Mae'r Comisiynydd wedi darganfod bod y Llywodraeth yn dal heb weithio allan sut i wneud rhai o'r newidiadau angenrheidiol i ddiogelu hawliau plant mewn ysgolion annibynnol, sydd wedi golygu bod dim newidiadau wedi cael eu gwneud yn yr holl amser yma.

# Beth fydd yn digwydd nesa?

Ar ôl edrych ar yr holl ddogfennau, mae'r Comisiynydd wedi penderfynu bod y Llywodraeth ddim wedi gwneud digon i wneud y newidiadau sydd angen i ddiogelu a chynnal hawliau plant os ydyn nhw'n cael eu haddysg gartre neu mewn ysgol annibynnol.

Dyw hyn ddim yn ddigon da, achos mae rhaid i'r Llywodraeth feddwl am hawliau plant yn eu holl waith. Mae Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dweud wrth y Llywodraeth bod rhaid iddyn nhw wneud beth bynnag sydd angen i sicrhau bod hawliau plant yn rhan o'u cyfreithiau, ond dyw'r Comisiynydd ddim yn meddwl bod nhw wedi gwneud hynny.

Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth, sef y camau mae hi'n meddwl bod angen iddyn nhw gymryd nesa, oherwydd bod dim digon wedi newid hyd yma. Mae gan y Llywodraeth tan 7 Ebrill 2021 i ysgrifennu'n ôl ati hi i ddweud wrthi hi beth fyddan nhw'n gwneud nesa.

Mae'r argymhellion yn gofyn i'r Llywodraeth wneud y pethau yma:

- Dweud wrth y Comisiynydd sut byddan nhw'n gwneud yn siŵr bod y cyfreithiau'n cael eu newid i sicrhau bod plant yn cael eu hawliau. Os dydyn nhw ddim yn gwybod eto beth mae angen iddyn nhw wneud i newid y cyfreithiau yma, mae angen iddyn nhw ffeindio hynny allan yn gyflym, er mwyn gallu gwneud newidiadau mor fuan â phosib;
- Edrych ar beth sy'n digwydd pan fydd plentyn yn cael ei anafu neu'n marw, er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb sydd angen gwybod am hynny yn cael gwybod, fel bod nhw'n gallu gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol;
- Penderfynu sut i fonitro ysgolion annibynnol fel bod pawb yno'n cael eu cadw'n ddiogel; mae angen iddyn nhw wneud newidiadau'n gyflym os dyw'r system ar hyn o bryd ddim yn cadw plant yn ddiogel;
- Sefydlu tîm newydd i weithio ar y darnau yma o waith, a gwneud yn siŵr bod digon o bobl yn gweithio ynddo fe, fel bod pob plentyn yn gallu cael eu hawliau trwy eu haddysg;

- Gwneud newidiadau'n gyflym os byddan nhw'n gofyn am farn pobl ar beth dylen nhw wneud. Does dim pwynt gofyn cwestiynau os dydyn nhw ddim yn gwneud newidiadau wedyn;

- Meddwl am hawliau plant yn eu holl waith ac ysgrifennu sut maen nhw wedi gwneud hynny, fel bod y Comisiynydd a phobl eraill yn gallu gweld y pethau maen nhw wedi meddwl amdanyn nhw a beth wnaethon nhw nesa. Bydd hynny'n golygu bod y Comisiynydd a phobl eraill yn gallu gofyn mwy o gwestiynau i'r Llywodraeth os ydyn nhw wedi gadael rhai pethau pwysig allan wrth feddwl; a

- Meddwl am newid pwerau cyfreithiol y Comisiynydd. Er bod y Comisiynydd yn gallu edrych ar lawer o ddogfennau i ysgrifennu'r adroddiad yma, roedd yn anodd cael copïau o rai pethau achos bod y Llywodraeth yn methu rhannu nhw gyda hi. Mae pwerau cyfreithiol y Comisiynydd yn golygu bod angen iddi gael hawl i edrych ar bopeth sydd angen wrth wneud yn siŵr bod y Llywodraeth yn gwneud digon i amddiffyn hawliau plant.

Mae rhaid i'r Llywodraeth ymateb i argymhellion y Comisiynydd o fewn 3 mis i dderbyn yr adroddiad. Pan fydd y Llywodraeth yn ysgrifennu'n ôl at y Comisiynydd, bydd eu hatebion ar gael i bawb eu gweld.

Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn gwrando ar beth mae'r adroddiad yma'n dweud ac yn rhoi gwybod i'r Comisiynydd a phobl eraill beth byddan nhw'n gwneud i gadw plant yn ddiogel a'u helpu i gael eu holl hawliau.

**Nodyn:** Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n cael eu haddysg gartre neu mewn ysgolion annibynnol yn ddiogel ac yn cael eu hawliau. Os ydych chi'n poeni am eich hawliau ac eisiau siarad am hynny gyda rhywun, gallwch chi gysylltu â thîm Ymchwiliadau a Chyngor y Comisiynydd. Mae yna bobl yn gweithio yn y tîm o 9am-5pm bob diwrnod yn yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener). Gallwch chi gysylltu gyda ni drwy:

- Ffonio 01792 765600 neu rhadffôn: 0808 801 1000
- Ebostio: cyngor@complantcymru.org.uk

Gyda'r hwyr neu ar y penwythnos, os hoffech chi siarad â rhywun ar unwaith, gallwch chi gysylltu â'r NSPCC ar 0808 800 5000 neu os ydych chi o dan 18, ffonwich ChildLine ar **0800 1111**